CYLCHLYTHYR YSGOL DEWI SANT


YSGOL DEWI SANT

DWY IAITH DYFODOL DISGLAIR
TWO LANGUAGES A BRIGHTER FUTURE

24.01.25

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL I DEULUOEDD YR YSGOL
WEEKLY FAMILY NEWSLETTER

@Ysgoldewisant @YsgolDewiSant



Diwrnod Cariad @Urdd
























Cawsom ymweliad arbennig gan Mr Urdd Dydd Iau i ddathlu Diwrnod Cariad @Urdd. Pawb wedi mwynhau dawnsio a chael hwyl hefo Mr Urdd. Diolch yn fawr!
We had a special visit from Mr Urdd on Thursday to celebrate Cariad @Urdd day. Everyone enjoyed dancing and having fun with Mr Urdd. Thank you very much!

Dathliadau diwrnod Santes Dwynwen












Dosbarth Gwalia yn efelychu celf Kyffin Williams ar gyfer Santes Dwynwen - roedd wedi paentio ynys Llanddwyn.
Gwalia class re-creating Kyffin Williams' art for Santes Dwynwen - he painted Ynys Llanddwyn







Mae dosbarthiadau Bl.6 wedi bod yn brysur yn dilyn cyfarwyddiadau er mwyn creu calonnau origami i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen.
Year 6 classes have been busy following instructions to create origami hearts to celebrate St Dwynwen's Day.








Llongyfarchiadau!



Llongyfarchiadau i Ava am dderbyn chwaraewr y gem hefo'i thîm pel-droed!
Congratulations to Ava for winning plater of the match with her football team!



Da iawn i Sol am chwarae rygbi yn erbyn Caerdydd (o dan 11) penwythnos diwethaf. Am brofiad anhygoel!
Well done to Sol for rugby playing against Cardiff (under 11's) last weekend. What an amazing experience!











Rydym wedi bod yn brysur yn dysgu am hinsawdd y goedwig law yn nosbarth Patagonia wythnos yma. Rydym wedi bod yn trafod o ble mae glaw yn dod ac mae'r plant wedi cael llawer o hwyl yn creu cwmwl mewn jar!
We have been busy learning about the rainforest climate in the Patagonia class this week. We have been discussing where rain comes from and the children have had a lot of fun creating a cloud in a jar!



Da iawn i ddosbarth Pendyffryn am berfformio eu dilyniant gymnasteg yn ein gwers ymarfer corff yr wythnos yma.
Well done to Pendyffryn class for performing their gymnastic routines in our PE lesson this week!

Llongyfarchiadau mawr i Scarlett a Finley am lwyddo i dderbyn eich trwydded beiro! Da iawn chi!
Congratulations to Scarlett and Finley fir achieving their biro certificate! Well done!





Yn eisiau / Wanted

Mae dosbarth Bl.1 Bryn Cwnin yn chwilio am hen sanau gwyn er mwyn creu dyn eira fel rhan o'i thema 'Y gaeaf a'r dyn eira'. Diolch yn fawr o flaen llaw am unrhyw roddion!

Bryn Cwnin's Year 1 class are looking for old white socks to create a snowman as part of their theme 'Winter and the snowman'. Many thanks in advance for any donations!

Gwobr 4 Diben Moli Mentrus

Rydym yn falch o gyhoeddi bod y dysgwyr isod wedi derbyn gwobr Moli Mentrus am amrywiaeth o resymau sy'n gysylltiedig gyda'r Diben i fod yn gyfranwr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.

We are proud to announce that the learners below have received the 'Moli Mentrus' award for a variety of reasons linked to the Purpose to be a enterprising, creative contributor who is ready to play their full part in their life and work .

Meithrin

Ivy (Bore)

Noah (P'nawn)





Derbyn

Nerys

Blwyddyn 1

Emlyn a Aled



Blwyddyn 2

Charlie a Brody



Blwyddyn 3

Cade a Jessica



Blwyddyn 4

Imogen a Felicity O



Blwyddyn 5

Scarlett



Blwyddyn 6

Georgia a Harry



SIARADWYR CYMRAEG YR WYTHNOS

LLONGYFARCHIADAU I'N SIARADWYR CYMRAEG WYTHNOS YMA:

Meithrin

Ivy (Bore)

Noah (P'nawn)



Derbyn

Lily a Evie



Blwyddyn 1

Evie a Rohan



Blwyddyn 2

Efa a Harper



Blwyddyn 3

Charlotte a Addison



Blwyddyn 4

Baeleigh



Blwyddyn 5

Hannah a Job



Blwyddyn 6

Flynn a Mabli



Diogelwch Dŵr y Gaeaf

diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

Dyma rai awgrymiadau defnyddiol i gadw'n ddiogel y gaeaf yma

- Cadwch draw o'r ymylon.
- Cadwch blant a chŵn o fewn cyrraedd.

Mewn argyfwng

- Ffoniwch 999.
- Os byddwch chi mewn trafferth, ffoniwch am help.
- Peidiwch â mynd i mewn i ddŵr oer, rhew neu ddŵr llifogydd i achub rhywun.



Winter Water Safety

diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

Here are some useful tips to keep safe this winter

- Keep back from the edge.
- Keep children and dogs within reach.

In an emergency

- Call 999.
- If you're in trouble float and call for help.
- Do not enter cold water, ice, or flood water to rescue someone.

